

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/03/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)	Thomas Victor Jones	Greta Hughes	David Andrew Parry
Gwenllian Davenport Hughes	Alan Harper-Smith	Ian Goronwy Williams	Ann L Williams (Cyfieithydd)
Pat Humphreys (Clerc)			

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. Ymddiheuriadau

Alaw Ceris, Wiliam Roger Jones.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim.

3. Cofnodion Pwyllgor 28/02/2022

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: Ian Goronwy Williams

Eilio: Greta Hughes

Materion yn codi o'r cofnodion

1. Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Claire Russell-Griffiths ynglŷn â'r ffurflenni mandate Banc Lloyds a Nat West ac oherwydd fod yr etholiad ym mis Mai a neb yn saff o gadw eu seddi mae hi eisiau aros tan ar ôl yr etholiad i newid y mandate i arbed gwaith.
2. Mae'r clerc wedi bod ar ôl Michael Sol Owen yn gofyn am yr ebost llifogydd yr oedd wedi son amdano wrth Thomas Victor Jones ac mae hi wedi ei dderbyn a'i anfon ymlaen i'r aelodau.
3. Mae'r clerc wedi derbyn cadarnhad gan Dewi Wyn Owen fod taliadau cyfraniad tuag at Llwybrau Cyhoeddus yn parhau y flwyddyn nesaf.
4. Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Priffyrdd Dwyfor i gwyno am gyflwr y lôn sy'n mynd allan o'r pentref tuag at Pwllheli a'r ymateb a dderbyniwyd oedd: 'Mae'r ffordd yma ar y rhestr 'Raulmac Surfacing (slurry seal)' yn ddibynnol ar gyllideb cyfalaf y flwyddyn ariannol nesaf'.
5. Mae'r clerc wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd parthed cael biniau ychwanegol wrth y traeth yn Llanbedrog yn dweud: 'Buaswn yn cynghori bod angen trafod eich dymuniad i leoli biniau efo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n gyfrifol am draeth Llanbedrog. Nid ydi Cyngor Gwynedd yn darparu biniau ar y traeth ar hyn o bryd'. Ymateb yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw: 'Rydym yn cytuno fod y mater o sbwriel yn un mawr ar draws ein safleodd ac rydym wedi trafod y syniad o gael biniau (wast gyffredin a rhai ailgylchu) sawl gwaith, ond yn ein profiad ni, mae biniau yn arwain at fwy o sbwriel yn cael ei adael – ni fyddem byth yn gallu darparu bin digon mawr ar gyfer nifer yr ymwelwyr sy'n defnyddio'r maes parcio. Rhwystr arall ydi nid oes gennym yr offer na'r

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 28/03/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

capasiti i wagio biniau. Rydym yn credu'n gryf yn neges y Cod Cefn Gwlad o 'ewch â'ch sbwriel adref' – h.y. fod pawb yn gyfrifol am gael gwared â'u sbwriel mewn ffordd gyfrifol. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i neud gymaint fedrwn ni heb finiau, er lles ein hymwelwyr, y gymuned leol a bywyd gwyllt yr ardal. Byddwn yn edrych ar ein harwyddion ar y safle, gwneud yn sicr fod y neges yn glir gan ein staff tymhorol unwaith maent yn cychwyn yn ogystal â gwneud 'litter picks' bob bore. Byddwn hefyd yn chwilio am wirfoddolwr Morlinofalwr/Coastodian dros yr wythnosau nesaf i gadw llygad ar y traeth a'r llwybr arfordir o gwmpas Llanbedrog. Mi fydd y person yma medru siarad efo'r cyhoedd a hefyd bwydo unrhyw faterion nol i ni. Dwi'n hapus iawn cyfarfod chi yn Llanbedrog i drafod hyn neu unrhyw faterion eraill ymhellach cyn iddi brysuro.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i drefnu cyfarfod rhyngddynt â'r aelodau.

4. Unrhyw Fater Brys

Ebost Cylch Yr Iaith – gwarchod enwau lleoedd Cymraeg.

Derbyniwyd ebost gan Ysgrifennydd Cylch yr Iaith ynglŷn â gwarchod enwau lleoedd Cymraeg yn gofyn i Cyngor Cymuned Llanbedrog rhoi ei enw i neges mae Cylch yr Iaith wedi ei baratoi i Jeremy Miles a copi i Sian Gwenllian i gyflawni ymrwymiad i ddiogelu enwau lleoedd tirweddol Cymraeg ac enwau tai Cymraeg. Dywedodd Greta Hughes ei bod yn cytuno'n llwyr hefo gwarchod enwau tirweddol Cymraeg ac yn gefnogol i bobol roi enwau Cymraeg ar eu tai ond ddim yn siwr y byddai eisiau deddfwriaeth yn dweud hynny ac hefyd ddim yn hoff o arwyddo llythyr sydd wedi ei baratoi yn barod ac yn teimlo y byddai'n well ysgrifennu llythyr personol gan ei fod yn gryfach yn y pen draw. Cytunodd Thomas Victor Jones hefo Greta Hughes ac yn teimlo ei fod yn bwysig ein bod yn cadw enwau hen a gwreiddiol Cymraeg ar y tiroedd, llwybrau a mapiau. Mae David Andrew Parry eisiau cefnogi hyn 100% o ran gwarchod enwau lleoedd tirweddol Cymraeg a gwarchod enwau tai Cymraeg ac yn teimlo mai'r unig ffordd o amddiffyn hyn yw drwy ddeddfwriaeth ac yn gofyn am bleidlais ar y mater, mae Ian Goronwy Williams yn cytuno hefo David Andrew Parry.

Penderfyniad: Pasiwyd drwy bleidlais i gefnogi llythyr Cylch yr Iaith a'i anfon i Jeremy Miles a Sian Gwenllian gyda enw Cyngor Cymuned Llanbedrog arno, ac os oes unrhyw un o'r aelodau yn teimlo eu bod eisiau anfon llythyr personol iddynt yna mae croeso iddynt wneud hynny hefyd.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: Ian Goronwy Williams

5. Etholiad mis Mai.

Gofynnodd y cadeirydd os oedd bawb wedi cael y ffurflenni oedd wedi cael eu dosbarthu i bawb gan y clerc ac i bawb gymeryd sylw o'r dyddiad cau a bod modd postio neu ebostio'r papurau enwebu yn ôl i Cyngor Gwynedd. Yn ôl y cyfarwyddyd mae'r clerc wedi ei gael gan Cyngor Gwynedd unwaith y bydd y dyddiad cau i'r aelodau presennol wedi pasio yna fe fydd y clerc yn derbyn hysbyseb i'w roi i fyny ar wefan y Cyngor Cymuned hefo cyfarwyddiadau ar gyfer aelodau'r cyhoedd sydd eisiau ymgeisio. Gofynnodd y cadeirydd: os oes mwy na 11 enw yn cael ei dderbyn oes yna etholiad i bawb neu ydi'r aelodau presennol yn cael cadw eu

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/03/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

seddi a dim ond etholiad i aelodau'r cyhoedd fydd yna? Mae'r clerc am gysylltu hefo'r dirprwy swyddog canlyniadau i ofyn ac ebostio'r aelodau hefo'r ateb.

6. Llwybrau

Mainc sydd wedi cael ei llosgi ar Mynydd Tir Cwmwd

Mae'r clerc a'r cadeirydd wedi cysylltu hefo'r vicer ac wedi cael enw a rhif ffôn teulu sydd gyda'r un cyfenw sydd yn byw yn Abersoch. Mae'r clerc wedi cysylltu hefo nhw ond nid ydynt yn adnabod yr enwau sydd ar y fainc ac nid ydynt yn perthyn iddynt.

Penderfyniad: rhoi'r wybodaeth ar facebook i weld os y bydd ymateb felly.

Lleoli mainc newydd sydd gan y Cynghorydd Angel Russell

Nid oes dim mwy o wybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â'r fainc sydd gan yr aelod lleol felly gofynnodd y cadeirydd i'r clerc gysylltu hefo hi i ofyn am lun o'r fainc i'r aelodau gael syniad o sut un ydi hi ac os mai un bren ydi hi neu un blastic.

Llwybr Tân ar Mynydd Tir Cwmwd

Mae'r clerc wedi cael ymateb gan Ifan Jones o Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau eu bod wedi cysylltu hefo Llanbedrog Headland Company ac yn y broses o drefnu caniatad am dorri 'firebreaks' am eleni.

J A Pozzi – cytundeb 3 mlynedd

Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Osian Parry ac wedi anfon cytundeb Pozzi iddo ond hefo'i enw fo arni ac mae o wedi cysylltu yn ôl yn cadarnhau ei fod yn hapus gyda'r telerau ac yn fodlon cymeryd y gytundeb drosodd am y ddwy flynedd nesaf. Pan y bydd wedi cael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mae o am anfon copi ohoni i'r clerc.

7. Y Fynwent

Y Fynwent Newydd – Cais Cynllunio

Bu cyfarfod safle yn y fynwent newydd bora dydd Mercher diwethaf rhwng y cadeirydd, William Roger Jones, Ian Goronwy Williams a cynrychiolydd o Dŵr Cymru. Mae pryder ynglŷn â'r beipan carthffosiaeth sydd yn 'pressurised' sydd yn mynd o'r orsaf pwmpio yn y maes parcio ar draws tir y fynwent newydd ac ymlaen i Pwllheli. Dywedodd cynrychiolydd o Dŵr Cymru bod postiau i fod ar y tir i ddangos ei lleoliad ond dim ond un postyn sydd yna felly fe fydd rhaid cael hyd i lle mae'r beipan yn iawn. Mae peipan ddŵr yn mynd ar draws y tir hefyd ac yn ôl nodiadau Dŵr Cymru nid yw mewn defnydd ddim mwy ond ar ôl siarad hefo perchennog Crugan mae o yn dweud ei bod hi ac am gadarnhau hynny. Mae cynrychiolydd Dŵr Cymru am yrru dyfynbris o'r gost am y gwaith i gael hyd i lleoliad y beipan yn iawn.

Problem arall sydd wedi codi yw bod gwahaniaeth mawr yn y cynllun lleoliad, sydd yn dangos perchnogaeth tir a roddwyd hefo'r cais gwreiddiol nôl yn 2010 a cynllun y gofrestrfa tir a'r cais presennol. Mae tir sydd yn cael ei ddangos ym mherchnogaeth Cyngor Cymuned Llanbedrog yn ddipyn llai na'r cynllun yn y cais gwreiddiol felly mae'r cadeirydd wedi ebostio Ieuan Ellis Owen yn gofyn am eglurhad o hyn a pa gynllun sydd yn gywir. Mae'r cadeirydd am anfon copiau o'r ddau gynllun a copi o'i ebost i Ieuan Ellis Owen i'r aelodau i gyd. Hyd nes y bydd cadarnhad wedi ei dderbyn o berchnogaeth tir y Cyngor Cymuned nid oes modd penderfynnu ar y cam nesaf.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/03/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

Cafwyd diweddariad gan y clerc ar weithredoedd y fynwent newydd, maent wedi cael eu hanfon yn ôl i'r swyddfa gofrestrfa tir i roi enw Cyngor Cymuned Llanbedrog arnynt ac felly mae gwaith Martin a'i Gwmni wedi gorffen, maent am anfon copi o'r gweithredoedd i'r clerc wedi iddynt eu derbyn yn ôl.

Yn dilyn y pwyllgor diwethaf fe gysylltodd y clerc gyda Dŵr Cymru i gael mesurydd dŵr yn y fynwent bresennol ac mae nhw wedi bod yn ei gosod yr wythnos diwethaf, mae'r clerc yn aros am ebost gan Dŵr Cymru i gadarnhau beth fydd y trefniadau anfonebu o hyn allan.

8. Cae chwarae

Dim diweddariad.

9. Coronavirus covid-19

- Diweddariad
- Polisi Iechyd a Diogelwch

Penderfynwyd y mis diwethaf ein bod yn parhau ar Zoom tan ar ôl yr etholiad ac efallai newid i gyfarfodydd Hybrid ar ôl hynny.

10. Neuadd y Pentref

Codi prisiau llogi'r neuadd

Mae'r cadeirydd wedi cael cadarnhad gan Barbara Warren ei bod yn codi ffi o £25 am gynnal parti penblwydd yn y neuadd ond ni ddywedodd am faint o amser. Mae'r clerc wedi edrych ar y datganiadau banc i weld faint mae'r Ysgol Feithrin yn talu yn fisol ac maent yn talu £195 bob mis ond eto nid ydym yn siwr am faint o amser mae'r Ysgol Feithrin yn agored, ac nid yw Barbara Warren yn gwybod faint mae'r 'Old Time Dancing' yn ei dalu am logi'r neuadd. Gofynnodd Alan Harper-Smith faint mae'r clwb snwcer yn ei godi ond eglurodd y cadeirydd wrtho bod y clwb snwcer ar wahan a bod ganddynt gyfrif banc eu hunain.

Penderfyniad: y cadeirydd i ofyn i Barbara Warren eto beth yw'r ffi am awr a'i roi ar agenda mis nesaf.

Mae'r cadeirydd wedi bod yn y neuadd ac wedi dychryn faint o olwg sydd o dan y llwyfan felly mae angen ei glirio eto a dywedodd David Andrew Parry ac Ian Goronwy Williams eu bod yn fodlon helpu.

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£366.73
HMRC – PAYE Mis 10,11 & 12	£275.00
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£160.00
Martin a'i Gwmni – newid enwau ar weithredoedd y fynwent newydd	£392.60

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/03/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

Taliadau wedi eu derbyn

Dim.

Ceisiadau Cynllunio

C22/0050/38/DT – Maes Gwyn, Llanbedrog – Dymchwel ac ail-godi adeilad gardd presennol

Penderfyniad: Gwrthod - gor-ddatblygiad o'r safle, ffordd anaddas i'r safle a problemau parcio oherwydd trafndiaeth trwm ar y ffordd sy'n arwain i'r safle

Cynnig: Greta Hughes Eilio: David Andrew Parry

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

Dim.

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG** - AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blyneddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

Cais am gyfraniad

1. **Macmillan Cancer Support** – cais am gyfraniad ariannol
Penderfyniad: Peidio rhoi cyfraniad.
2. **Ambiwlans Awyr Cymru** – cais am gyfraniad ariannol
Penderfyniad: Rhoi cyfraniad o £100.00.
Cynnig: Greta Hughes Eilio: Thomas Victor Jones
3. **Marie Curie** – cais am gyfraniad ariannol
Penderfyniad: Peidio rhoi cyfraniad.
4. **Dawns i bawb** – cais am gyfraniad ariannol
Penderfyniad: Peidio rhoi cyfraniad.
5. **Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023** – cais am gyfraniad ariannol
Penderfyniad: Rhoi cyfraniad o £1000.00 gan ei fod yn gyllideb 2021-2022 ac felly ni fydd angen rhoi cyfraniad yn 2022-2023.
Cynnig: Ian Goronwy Williams Eilio: David Andrew Parry
6. **Amgueddfa Forwrol Llŷn** – cais am gyfraniad ariannol
Penderfyniad: Rhoi cyfraniad o £50.00.
Cynnig: Greta Hughes Eilio: Thomas Victor Jones

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjoness@ppm-technology.com • 07775577869 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 28/03/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

7. **Teenage Cancer Trust** – cais am gyfraniad ariannol
Penderfyniad: Peidio rhoi cyfraniad.

To Capel Peniel

Dyweddodd y cadeirydd fod trigolion y pentref yn bryderus am to'r capel oherwydd fod amryw o lechi wedi disgyn ac mae'r clerc wedi tynnu sylw Cyngor Gwynedd at hyn ers mis Hydref 2021 ac er hyn ni dderbyniodd ymateb gan y Prif Swyddog Rheolaeth Adeiladu tan y 25^{ain} o Chwefror. Mae'r clerc am anfon ymateb Cyngor Gwynedd i'r aelodau.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.15y.h.